OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 395 (Cy. 126)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *24 Mawrth 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *26 Mawrth 2021* |
| *Yn dod i rym - -* | *16 Ebrill 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 10(2)(a)(vii), (viii) a (ix), a (4) a 187(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**1**).

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 16 Ebrill 2021.

**Diwygiadau i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017**

**2.** Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017(**2**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 a 4.

**3.** Ar ôl rheoliad 2 (dehongli) mewnosoder—

"**Cymhwyso'r Rheoliadau hyn i ddatganiadau blynyddol ar gyfer blynyddoedd ariannol penodedig**

**2A.** Nid yw'r darpariaethau a ganlyn o'r Rheoliadau hyn yn gymwys i ddatganiadau blynyddol a gyflwynir ar gyfer unrhyw un neu ragor o'r blynyddoedd ariannol a bennir yn rheoliad 10(1)—

(a) rheoliadau 3 i 6;

(b) yr Atodlen."

(**1**) 2016 dccc 2; *gweler* y diffiniad o "a ragnodir" a "rhagnodedig" yn adran 189.

(**2**) O.S. 2017/1097 (Cy. 227), a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/233 (Cy. 52) a 2020/486 (Cy. 111).

**4.** Yn rheoliad 10(1) (terfyn amser ar gyfer cyflwyno datganiadau blynyddol), yn lle "26 Mai 2021" rhodder "26 Mai 2022".

*Julie Morgan*
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

24 Mawrth 2021

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan bwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (dccc 2) ("y Ddeddf"). Maent yn diwygio gofyniad penodol a osodir ar ddarparwyr gofal cymdeithasol cofrestredig ac maent wedi eu gwneud mewn ymateb i ledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn gosod gofynion ar ddarparwyr y gwasanaethau gofal cymdeithasol a reoleiddir gan y Ddeddf. Maent yn cynnwys gofyniad yn adran 10 i gyflwyno datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru. Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017 (O.S. 2017/1097 (Cy. 277)) ("y Rheoliadau Datganiadau Blynyddol") yn darparu manylion pellach am y datganiadau blynyddol. Maent yn cynnwys darpariaeth a wneir o dan adran 10(4) ynghylch y dyddiadau erbyn pryd y mae rhaid cyflwyno'r datganiadau.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 10(1) o'r Rheoliadau Datganiadau Blynyddol. Mae'r rheoliad hwnnw yn ymwneud â'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid cyflwyno datganiadau blynyddol sy'n ymwneud â blynyddoedd ariannol 2018-19, 2019-20 a 2020-21. Effaith y diwygiad a wneir gan reoliad 4 yw bod rhaid i ddarparwyr pob math o wasanaethau rheoleiddiedig gyflwyno datganiadau blynyddol heb fod yn hwyrach na 26 Mai 2022. Yn flaenorol, roedd yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gyflwyno datganiadau blynyddol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2018-19, 2019-2020 a 2020-21 heb fod yn hwyrach na 26 Mai 2021.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn mewnosod rheoliad newydd 2A yn y Rheoliadau Datganiadau Blynyddol sy'n datgymhwyso darpariaethau penodol o'r Rheoliadau hynny mewn perthynas â datganiad blynyddol a gyflwynir mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r blynyddoedd ariannol a bennir yn rheoliad 10(1) (fel y'i diwygiwyd gan reoliad 4).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.